ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

26ain Ebrill, 2022

‘Dylan Goes Digital’
Prosiect Ieithoedd (Yr Adran Saesneg)
Canolfan Dylan Thomas, 4-6ed o Fai 2022

Annwyl Rhiant/ Gwarcheidwad,

Ysgrifennaf atoch i’ch hysbysu am gyfle gwych i’ch plentyn fod yn rhan o brosiect cyffrous gyda’r adran Saesneg fel rhan o brosiect ieithoedd sy’n ffocysu ar fywyd a gwaith y llenor byd-enwog, Dylan Thomas.

Ffocws y prosiect yw creu wefan ‘Dylan goes Digital’ yn cyflwyno gwybodaeth am yr enwog Dylan Thomas. Bwriad y prosiect yw cyflwyno bywyd a gwaith Dylan Thomas i ddisgyblion iau. Fel rhan o’r gwaith yma, disgwylir i bawb ym mlwyddyn 8 ymweld â’r ganolfan Dylan Thomas yn Abertawe yn ystod yr wythnos 4-6ed Fai, 2022

Bydd trefniadau fel y ganlyn:

Diwrnod	Dosbarth
Mercher, 4ydd Fai	8AERY Mrs Lisa Davies (9-11yb)/ 8AERY Miss Howells (11yb-1yp)
Iau, 5ed Fai	8BTW Mr Shaw (9-11yb)/ 8AERY Miss Stokes + Mrs Williams (11yb-1yp)
Gwener, 6ed Fai	8BTW Mrs Lisa Davies (9-11yb)/ 8BTW Miss Eleri Davies (11yb-1yp)

Bydd cludiant i’r ganolfan ac yn ôl i’r ysgol yn cael ei drefnu, ond bydd angen i ddosbarthiadau sydd yn teithio rhwng 11yb ac 1yp ddod a chinio gyda hwy, gan ni fyddwn yn yr ysgol yn ystod amser cinio. **Disgwylir i bawb wisgo gwisg ysgol.**

Gofynnwn yn garedig am **gyfraniad o £3** er mwyn cynnal costau trafnidiaeth i brif swyddfa’r ysgol. A fyddech cystal â llenwi’r ffurflen feddygol a’i dychwelyd, ynghyd â’r arian (neu siec yn daladwy i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe) cyn gynted ag y bo modd?

Diolch am eich cydweithrediad a chysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau,

Mr Chris Shaw (Pennaeth yr Adran Saesneg)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy’n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales